

Modiwl Sefydlu Grŵp Cymunedol

Strwythur y Pecyn Cymorth

Bwriedir i Becyn Cymorth Ynni Adnewyddadwy Ynni Lleol gael ei ddefnyddio fel ffynhonnell gyfeirio gan Grwpiau Cymunedol o bob math. Mae'r modiwl hwn yn un rhan o gyfres o ddogfennau sy'n ffurfio Pecyn Cymorth Ynni Adnewyddadwy Ynni Lleol a bwriedir iddo gwmpasu prosiectau o bob maint, er y gall graddau a chymhlethdod prosiectau aml-MW ofyn am waith gwerthuso manylach na phrosiectau llai. Ymhlith y modiwlau eraill a all fod o ddi-ddordeb arbennig i'r rheini sy'n darllen y modiwl hwn mae'r canlynol.

- cyllid prosiect
- caffael
- cynllunio
- cysylltu â'r grid
- y Tariff Cyflenwi Trydan
- diogelu'r safle

Mae'r pecyn cymorth hwn yn adeiladu ar y gwaith a gwblhawyd ar gyfer Cynllun Ynni Adnewyddadwy a Chymunedol Llywodraeth yr Alban (CARES) gan Local Energy Scotland a Ricardo-AEA.

Strwythur y Modiwl

Mae'r modiwl hwn wedi'i strwythuro'n dair rhan gan weithredu fel canllaw a dogfen gyfeirio i Grwpiau Cymunedol wrth ddatblygu prosiectau ynni adnewyddadwy yng Nghymru.

Trosolwg o ddatblygiad y prosiect

Cyflwyniad byr yn amlinellu'r hyn a ddisgwylir gan y grŵp wrth ddatblygu prosiect ynni a'r sgiliau y bydd eu hangen ar eich grŵp.

Sefydlu grŵp cymunedol

Ystyriaeth fanwl o sut i sefydlu grŵp cymunedol, gan gynnwys y fframwaith cyfreithiol, ystyriaethau ariannol a'r rhan a chwaraeir gan y grŵp yn ystod cyfnod gweithredol y prosiect.

Rhagor o wybodaeth

Dolenni, diffiniadau a chyfeiriadau priodol at wybodaeth arall, wedi'u dwyn ynghyd er hwylustod.

Trosolwg o ddatblygiad y prosiect

Cyn dechrau sôn am sut i sefydlu grŵp cymunedol yn fanwl, mae'n bwysig deall y rhan y mae'n rhaid i'r grŵp hwn ei chwarae a'r gwaith y mae'n rhaid iddo ei wneud. Mewn gwirionedd, mae'n debygol i'r grŵp ddechrau'n anffurfiol ar sail syniad ac iddo ddatblygu drwy weithgareddau dilynol nifer gynyddol o bobl leol. Yn ystod y broses hon (ac yn wir drwy gydol oes y grŵp), mae'n debygol y bydd pobl yn gadael ac yn ymuno â'r grŵp yn hytrach na bod ganddo'r un aelodau drwy'r amser. Dylai'r grŵp allu ateb nifer o gwestiynau a amlinellir yn yr adran nesaf.

Cwblhaodd Prifysgol Caeredin ddadansoddiad o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar lwyddiant prosiect ynni adnewyddadwy a arweinir gan y gymuned (gweler yr Atodiad am fanylion). Rhydd yr adroddiad hwn dystiolaeth o'r ffactorau cymdeithasol sy'n dylanwadu ar lwyddiant prosiectau ynni cymunedol ar gamau datblygu gwahanol (o'r cysyniad i weithredu'r prosiect). Nid yw cael set benodol o sgiliau o fewn grŵp cymunedol yn effeithio ar debygolrwydd y prosiect o lwyddo, ond mae cydlyniant cymunedol a hunaniaeth yn allweddol. Gall sicrhau bod hyn yn glir o'r cychwyn gael effaith sylweddol ar lwyddiant eich prosiect.

Sefydlu grŵp cymunedol

Fel rheol, bydd y gwaith o nodi cyfle i ddatblygu prosiect cynhyrchu ynni a arweinir gan grŵp cymunedol yn cynnwys arweinyddiaeth ac ysgogiad unigolyn neu grŵp bach o bobl. Y nod yw defnyddio'r arweinyddiaeth a'r ysgogiad hyn i greu grŵp effeithiol a all ddatblygu prosiect.

Y man cychwyn yw ehangu gweledigaeth gychwynol y 'grŵp sefydlu' fel ei bod yn sail i grŵp cymunedol hyfyw. Bydd maint a chyfansoddiad y grŵp neu'r tîm yn dibynnu ar faint y prosiect, y dechnoleg a ddewisir a'r lleoliad. Efallai y bydd angen i grŵp cymunedol ddwyn ynghyd y sgiliau sydd eu hangen i ddatblygu ac ariannu prosiect, ac mae'n rhaid iddynt gynnwys y gallu i nodi a diogelu safle. Mewn rhai achosion, efallai y bydd angen arweinydd nad oes ganddo unrhyw sgiliau technegol heblaw am y profiad o arwain y grŵp neu brosiect. Gallwch wyllo trosolwg fideo o reoli prosiect cymunedol a ddarparwyd gan y Ganolfan Ynni Cynaliadwy; rhoddir y manylion yn yr adran Rhagor o Wybodaeth.

Mae nifer o ffynonellau gwybodaeth ar gael yng Nghymru ar gyfer sefydlu a rheoli grŵp, a restrir yn yr adran Rhagor o Wybodaeth.

Ffurfioli'r grŵp

Bydd angen i'ch grŵp cymunedol gydweithio fel tîm a chael y penderfyniad i gwblhau prosiect. Felly, mae'n bwysig sicrhau bod cyfansoddiad unrhyw grŵp cymunedol yn gywir, sy'n gofyn am ddeall a chytuno ar nod datblygu prosiect yn glir. Mae hyn hefyd yn gymwys i weithgareddau datblygu a gyflawnir gan fusnesau cymunedol ac mae'n annibynnol ar faint y prosiect a gyflawnir.

Y prif bwyntiau i'w hystyried wrth sefydlu unrhyw grŵp cymunedol yw:

- Pam y'i cyflawnir (amcanion)?;
- Sut y gwnaiff y pethau hynny (pwerau)?;
- Pwy fydd yn ei redeg (pwyllgor/bwrdd)?;
- Beth fydd yn digwydd os bydd angen gwneud newidiadau (diwygio)?;
- Sut y caiff y grŵp neu'r gymdeithas ei rhedeg?;
- Beth fydd yn digwydd os bydd am ddirwyn i ben (diddymu)?;
- Beth yw'r trefniadau mewnol o ran cyfarfodydd, pleidleisio, rheoli'r gyllideb?

Yn bwysig, caiff cyfansoddiad y grŵp effaith sylweddol ar y cyllid y mae'r grŵp yn gobeithio ei gael. Er enghraifft, bydd cyllid gan fanc yn gofyn am gyfansoddiad grŵp gwahanol na chyllid a godir drwy gynnig cyfranddaliadau lleol.

Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i unrhyw grŵp sydd am ddatblygu prosiect gynnwys y canlynol:

- Strwythur rheoli clir gydag arweinydd penodol sy'n sicrhau bod gan y prosiect system lywodraethu dda;
- Cynllun rheoli prosiect cadarn;
- Person (neu dîm o bobl) yn y tîm sydd â'r sgiliau rheoli prosiect gofynnol i gymryd cyfrifoldeb am gyflawni'r cynllun rheoli prosiect;
- Amrywiaeth o sgiliau eraill (e.e. sgiliau rheoli/arfarnu ariannol, ymgysylltu â'r gymuned, peirianeg/technegol) er mwyn helpu i gyflawni amcanion y grŵp - efallai y bydd angen i ymgynghorwyr ymuno â'r grŵp er mwyn darparu rhai o'r rhain.

Unwaith yr ystyrir bod prosiect yn hyfyw ac, felly, y gall gael ei ddatblygu, rhaid i'r grŵp gael ei sefydlu'n gorff priodol, ffurfiol neu, yn nhermau datblygu prosiect, Cyfrwng Dibenion Arbennig.

Yn dibynnu ar faint a natur y prosiect, efallai y bydd angen i hyn fod yn seiliedig ar fframwaith cyfreithiol priodol. Gwneir hyn er mwyn sicrhau, o'r cychwyn, fod gan y grŵp yr adnoddau priodol i godi arian, cael grantiau, derbyn a dosbarthu incwm gan y prosiect gweithredu, talu biliau a threfnu yswiriant. Mae hefyd yn bwysig bod y fframwaith cyfreithiol yn diogelu aelodau unigol y grŵp cymunedol rhag rhwymedigaethau personol unrhyw ddiffyg ariannol neu unrhyw unioni arall.

Dylid cael cymorth cyfreithiol i sefydlu'r Cyfrwng Dibenion Arbennig priodol ar gyfer eich prosiect a dylai pob cais ariannol, cynllunio, cysylltu â'r grid a thariffau cymorth gael ei wneud gan y cyfrwng hwnnw. Ceir rhagor o wybodaeth am gael cyngor proffesiynol yn y **Modiwl Caffael**.

Y sgiliau gofynnol

Bydd angen nifer fawr o sgiliau gwahanol er mwyn datblygu prosiect ynni adnewyddadwy cymunedol. Tra bydd rhai yn benodol i dechnolegau unigol efallai (e.e. contractio tanwydd ar gyfer biomas), bydd llawer yn gyffredinol i bob prosiect. Mae'r tabl canlynol yn mapio'r sgiliau y bydd eu hangen arnoch yn y grŵp i'r camau yn y tabl datblygu prosiect.

CAM	GWEITHGARWCH	RHEOLI PROSIECT	RHEOLAETH ARIANNOL	MATERION CYFREITHIOL	CYFLENWI TECHNEGOL
1	Datblygu'r weledigaeth	X			
2	Ceisio Cyngor	X			
3	Cyfathrebu	X	X		
4	Dod o hyd i Safle	X	X		X / X
5	Cwmpasu Cychwynnol	X	X		X / X
6	Sefydlu Endid	X	X	X	
7	Sicrhau Arian Cychwynnol	X	X		
8	Astudiaeth rhag-ddichonoldeb	X			X
9	Archwilio Hyfywedd Ariannol	X			X / X
10	Diogelu'r Safle	X	X	X	
11	Astudiaeth Dichonoldeb Lawn	X	X		X
12	Cadarnhau Argaeledd Grid	X			X / X
13	Ymgynghoriad Rhag-gynllunio	X	X		X
14	Hysbysu Cymydog	X	x		X
15	Pennu Maint y Prosiect	X	X	X	X / X
16	Archwilio Hyfywedd Ariannol	X			
17	Sicrhau Cyllid Rhag-gynllunio	X			
18	Cais Cynllunio	X	X	X	X / X
19	Cais am Drwydded Tynnu Dŵr	X	X	X	X
20	Cais Grid	X	X	X	X
21	Nodi Ffynonellau Cyllid	X	X	X	
22	Datblygu Model Ariannol Llawn	X	X / X		X / X
23	Nodi Cyflenwyr a Chysylltu â Hwyl	X	X	X	
24	Sicrhau Arian Pontio	X	X / X	X	
25	Rhag-achrediad Tariff	X	X	X	
26	Cwblhau'r Agweddau Ariannol	X	X / X	X	
27	Ad-dalu Cronfeydd Eraill	X	X	X	
28	Gwaith adeiladu	X / X	X	X	X
29	Budd Cymunedol	X	X	X	
30	Gweithrediad	X	X		X
31	Dadgomisiynu	X	X	X	

X	Ar gael o bosibl o fewn grŵp cymunedol
X	Yn debygol o gael ei osod ar gontract

Ymhlith y rhain mae:

- Rheoli prosiect. Mae'r rôl hon yn cynnwys bod yn gyfrifol am y 'llinell amser' datblygu fel bod gweithgareddau yn digwydd mewn trefn gronolegol er mwyn osgoi unrhyw oedi a lleihau buddsoddi arian neu ymdrech cyn pryd. I bob diben, mae hyn yn golygu mai'r rheolwr prosiect yw arweinydd y prosiect o ddydd i ddydd. Yn achos llawer o brosiectau, yn enwedig rhai mwy o faint (>50kW), mae'n debygol y bydd cyfres o is-weithgareddau gwahanol y bydd angen eu cyflawni, gyda phob un â'i reolwr neu ei arweinydd ei hun. Yma, rôl y rheolwr prosiect yw cydgyssylltu'r gweithgareddau hyn a sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni ar amser ac yn unol â'r gyllideb. Drwy benodi rheolwr prosiect penodol, bydd llai o risg i'r prosiect, bydd yn cynyddu'r tebygolrwydd o lwyddiant a bydd yn lleihau'r amser a gymerir i gwblhau'r prosiect. Dylid gwrthbwysu hyn â'r gost ychwanegol yr eir iddi.
- Rheolaeth ariannol. Mae dwy agwedd wahanol i'r rôl hon, a all gael eu cyflawni gan ddau unigolyn. Diben y cyntaf, sef 'rheolaeth ariannol', yw rheoli'r cyllidebau sydd ar gael, gan gynnwys gwneud taliadau, monitro a rheoli'r cyfrif(on) banc, cyhoeddi anfonebau (lle y bo'n briodol) ac ati. Mae'r ail yn ymwneud â'r broses arfarnu ariannol a fydd yn ofynnol a gwneud ceisiadau am grantiau, cyllid, benthyciadau ac ati. Dylid cael cyngor arbenigol gan gynghorydd ariannol cymwysedig er mwyn nodi'r ffynhonnell ariannol fwyaf priodol.
- Materion cyfreithiol. Mae'n bwysig bod rhwymedigaethau cyfreithiol y grŵp cymunedol sy'n gysylltiedig â datblygu, gweithredu ac, yn y pen draw, ddadgomisiynu'r prosiect yn cael eu deall a'i lliniaru cyhyd â phosibl. Bydd hyn yn gofyn am ddewis yr endid cyfreithiol cywir a threfnu'r lefel a'r math cywir o yswiriant. Dylid ceisio cyngor cyfreithiol er mwyn adolygu pob contract, cais a chytundeb.
- Cyflenwi technegol. Drwy gydol y broses o ddatblygu'r prosiect, bydd angen ystyried nifer o faterion technegol gan gynnwys casglu data er mwyn cefnogi ystod eang o weithgareddau, gwneud cysylltiadau cychwynnol ac wedyn gwneud ceisiadau i gysylltu â'r grid, cael trwyddedau tynnu dŵr a cheisio caniatâd cynllunio. Mae'n debygol y bydd y rhain i gyd yn gofyn am ryw fath o adroddiad ategol neu lunio a chyflenwi dogfennaeth arall.

Er, yn ddiau, y bydd rhai o'r sgiliau hyn ar gael yn y grŵp cymunedol, mae'n debygol y bydd angen prynu rhai eraill ar sail contract. Mae'r **Modiwl Caffael** yn rhoi canllawiau ar sut i sicrhau cymorth ymgynghorol.

Fframwaith cyfreithiol grŵp cymunedol


Mae nifer o fodiwlau sy'n galluogi perchenogaeth gymunedol o brosiect ynni adnewyddadwy. Ymhlith y rhain mae:

- 1) Perchennog-weithredwr - caiff y gwaith o ddatblygu'r prosiect a'i adeiladu ei arwain a'i ariannu gan y gymuned, gyda'r gymuned hefyd yn gweithredu'r prosiect;
- 2) Arweiniad datblygwr masnachol - caiff y gwaith o ddatblygu'r prosiect a'i adeiladu ei arwain gan ddatblygwr masnachol, gyda'r gymuned yn cael cynnig cyfran fuddsoddi yn y prosiect perchenogaeth a rennir neu hyd yn oed berchenogaeth lawn;
- 3) Cyd-fenter - mae'r gymuned a'r datblygwr masnachol yn cydweithio er mwyn datblygu ac adeiladu'r prosiect, gyda'r ddau barti yn buddsoddi yn y prosiect;

- 4) Datblygwr cymunedol - caiff y gwaith o ddatblygu'r prosiect ei arwain gan y gymuned a chysylltir â datblygwr ar gyfer y gwaith adeiladu ac i fuddsoddi yn y prosiect perchenogaeth a rennir.

Os mai unig amcan y grŵp cymunedol yw datblygu prosiect ynni, yna, cyn i unrhyw arian gael ei wario ar sefydlu grŵp cymunedol, byddai'n ddoeth cadarnhau bod y prosiect arfaethedig yn hyfyw a bod unrhyw safle gofynnol neu gyfleusterau hanfodol arall ar gael. Drwy ddilyn y canllawiau yn y modiwl hwn, dylai'r risg hon gael ei lleihau.

Mae'r ffigur isod yn dangos y lledaeniad o brosiectau sydd ym mherchenogaeth lwyr y gymuned i gael buddiannau cymunedol gan brosiect a arweinir gan ddatblygwr masnachol.



Mae canllawiau ar endidau cyfreithiol gwahanol ar gael gan amrywiaeth o ffynonellau, a restrir yn yr adran Rhagor o Wybodaeth.

Os ydych yn ystyried datblygu prosiect perchenogaeth gymunedol, mae cymorth ar gael gan Swyddogion Datblygu Ynni Lleol.

O ran grwpiau cymunedol, bydd y corff neu'r fframwaith cyfreithiol ffurfiol mwyaf priodol, i raddau, yn cael ei bennu gan y prosiect, sut y caiff ei ariannu, unrhyw bartneriaethau y mae'r grŵp yn bwriadu eu sefydlu a sut y caiff y buddiannau o'r prosiect eu dosbarthu. Er enghraifft, efallai mai dilyn trywydd cwmni cyflenwi ynni fydd orau os caiff yr ynni a gynhyrchir ei ddefnyddio yn y gymuned. Gellir cael rhagor o wybodaeth am gwmnïau cyflenwi ynni sy'n canolbwyntio ar y gymuned gan London Energy Partnership a Community Pathways. Pan fyddwch wedi cyrraedd y cam hwnnw ar ddatblygu eich prosiect, dylech gyfeirio at y sefydliadau hyn a restrir yn yr adran Rhagor o Wybodaeth.

Os caiff prosiect ei ariannu gan y gymuned, yna efallai y bydd math o gwmni cydweithredol yn fwy priodol. Mae cwmnïau cydweithredol yn fusnesau a berchenogir ac a redir gan ac ar ran eu haelodau, p'un a ydynt yn gwsmeriaid, yn gyflogeion neu'n drigolion. Yn ogystal â chynnyg llais cyfartal a chyfran gyfartal o'r elw i aelodau, mae cwmnïau cydweithredol yn cydweithio er mwyn creu canlyniad gwell o brosiect neu weithgaredd penodol drwy gydweithredu. Mae gweithio fel hyn yn ffordd dda o bennu ffocws unrhyw fuddsoddiad gan aelodau o'ch grŵp yn ogystal â chynnyg sylfaen cydraddoldeb ehangach er mwyn helpu i drefnu benthyciadau (gweler y **Modiwl Cyllid Prosiect**). Gall UK Cooperatives roi rhagor o wybodaeth am gwmnïau cydweithredol a rhoddir y manylion yn yr adran Rhagor o Wybodaeth.

Strwythurau cyfreithiol gwahanol ar gyfer eich grŵp

Er mwyn cael gafael ar ffynonellau cyllid rhaid sefydlu strwythur corfforedig. Rhydd hyn y statws cyfreithiol sydd ei angen ar y Cyfrwng Cymunedol i gyflwyno cyfranddaliadau, cael grantiau neu sicrhau benthyciadau. Bydd y Cyfrwng Cymunedol hefyd yn gallu llunio contractau a chyflogi staff, a all fod yn ofynnol er mwyn sefydlu trefniant perchenogaeth a rennir â datblygwr masnachol.

Isod, crynhoir rhai o'r strwythurau a all fod yn addas i'ch sefydliad. Mae angen gwybodaeth ychwanegol i hyn er mwyn gallu gwneud penderfyniad ar y strwythur cyfreithiol mwyaf priodol i grŵp cymunedol. Dylid cael cyngor proffesiynol i gadarnhau hyn.

Cymdeithas Ddiwydiannol a Darbodus

Sefydlir Cymdeithas Ddiwydiannol a Darbodus er mwyn cynnal masnach neu fusnes er budd ei aelodau. Mae'n gorfforedig, sy'n golygu ei fod wedi dilyn y broses gofrestru sy'n trosi busnes newydd neu bresennol yn gorff corfforaethol, gan ei wneud yn endid cyfreithiol yn ei rinwedd ei hun. Gall Cymdeithas Ddiwydiannol a Darbodus berthyn i ddauategori: cwmnïau cydweithredol a chymdeithasau bona fide er budd y gymuned.

Ni chaiff y rhan fwyaf o Gymdeithasau Diwydiannol a Darbodus eu rheoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol o dan y Ddeddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol. Gan fod hyn yn lleihau costau a chymhlethdod, mae'n ffordd boblogaidd o sefydlu Cyfrwng Cymunedol. Ni fydd gan aelodau o'r cymdeithasau hyn fynediad i'r Gwasanaeth Ombwdsmon Ariannol na Chynllun Iawndal y Gwasanaethau Ariannol. Fodd bynnag, gan nad oes angen iddynt gydymffurfio â'r rheoliadau hyn, nid yw'r broses o sefydlu Cymdeithas Ddiwydiannol a Darbodus yn gymhleth nac yn ddrud felly. Fodd bynnag, mae'n gofyn am gymorth ac arweiniad proffesiynol i wneud hynny.

Yr uchafswm y gellir ei fuddsoddi mewn Cymdeithas Ddiwydiannol a Darbodus yw £100,000. Dim ond un bleidlais a gaiff pob aelod (neu gyfranddaliwr) waeth beth fo gwerth ei fuddsoddiad. Efallai y caiff rhanddeiliaid daliadau llog ar gyfradd sy'n angenrheidiol er mwyn cael a chadw digon o gyfalaf i redeg y busnes.

Bydd unrhyw wargedau yn mynd tuag at amcanion y busnes sef, yn achos cymdeithasau budd cymunedol, bod o fudd i'r gymuned, neu gall aelod gwmnïau cydweithredol (rhai bona fide) benderfynu ail-fuddsoddi mewn prosiectau newydd neu gyfeirio gwargedau i gronfa budd cymunedol. Mae'r rheolau sy'n llywodraethu Cymdeithas Ddiwydiannol a Darbodus yn sicrhau bod unrhyw asedau yn cael eu cloi, bod cyfyngiadau ar y ffordd y defnyddir yr ased, os bydd unrhyw newidiadau i'r strwythur sefydliadol.

Gall cwmnïau cydweithredol gael rhyddhad treth Cynllun Buddsoddi Cychwynnol mewn Mentrau a rhyddhad treth Cynllun Buddsoddi mewn Mentrau ar fuddsoddiad unigolyn. Yn achos y cyntaf ceir rhyddhad treth o hyd at 50% ac yn achos yr ail ceir rhyddhad treth o hyd at 30%. Bydd y Cynllun Buddsoddi mewn Mentrau yn cynyddu'r elw i fuddsoddwyr sydd o bosibl yn golygu bod mwy o warged ar gael ar gyfer budd cymunedol.

Cwmnïau cydweithredol bona fide

Mae cwmnïau cydweithredol yn gweithredu er budd eu haelodau a gallant fod yn fenter gymdeithasol, yn dibynnu ar eu gweithgareddau a'r ffordd y maent yn dosbarthu eu helw. Ni allant gael eu sefydlu'n elusennau. Cânt eu sefydlu er budd yr aelodau cydweithredol.

Cymdeithas Budd Cymunedol

Caiff cymdeithasau budd cymunedol eu llywodraethu gan yr un ddeddfwriaeth â chwmnïau cydweithredol. Fodd bynnag, yn ôl eu dyluniad, cânt eu rhedeg er budd y gymuned i ddarparu gwasanaethau i bobl ar wahân i'w haelodau. Fel gyda chwmnïau cydweithredol, caiff buddsoddwyr sy'n prynu cyfranddaliadau elw bach ar eu buddsoddiad (rhwng 2 a 5% fel arfer) yn gyfnewid am weddill y difidendau a gedwir er budd y gymuned.

Cwmni Buddiant Cymunedol

Mae cwmnïau buddiant cymunedol yn fath o gwmni cyfyngedig i bobl sydd am sefydlu busnesau sy'n masnachu â diben arbennig (mentrau cymdeithasol), neu i gyflawni gweithgareddau eraill er budd y gymuned. Maent yn hawdd eu sefydlu, gyda holl hyblygrwydd a sicrwydd ffurf ar gwmni, ond gyda rhai nodweddion arbennig er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio er budd y gymuned. Mae cwmnïau buddiant cymunedol yn ffurf gyfreithiol ddefnyddiol ar gyfer dal asedau lleol, fel tir neu neuadd gymunedol, gan sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio er budd y gymuned.

Mae'n rhaid i gynigion cyfranddaliadau cwmnïau buddiant cymunedol gael eu rheoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol felly, yn aml, dim ond ar gyfer cynigion cyfranddaliadau mwy sydd dros £1m y'u defnyddir gan fod costau ychwanegol yn gysylltiedig â gwaith rheoleiddio'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol.

Cwmni Preifat Cyfyngedig drwy gyfranddaliadau

Yn achos cwmni preifat cyfyngedig drwy gyfranddaliadau, bydd unigolyn, neu grŵp, yn rhoi arian yn y cwmni ac, yn gyfnewid am hynny, yn cael canran o berchenogaeth ar ffurf cyfranddaliadau. Unwaith y telir am yr holl gyfranddaliadau yn y cwmni yn llawn, bodlonir rhwymedigaeth cyfranddalwyr y cwmni. Os caiff y cwmni ei ddiddymu, am ba reswm bynnag, bydd rhwymedigaeth y cyfranddaliwr yn gyfyngedig i'r swm a dalwyd ganddo.

Os bydd gan grŵp cymunedol statws elusennol a'i fod am gyflawni gweithgaredd penodol sy'n fasnachol, fel buddsoddi mewn datblygu ynni adnewyddadwy, yn hytrach nag elusennol, gall sefydlu is-gwmni perchenogaeth lawn i wneud hynny. Yna, gall unrhyw warged o'r is-gwmni perchenogaeth lawn gael ei dalu'n ôl i'r rhiant-gwmni o dan gymorth rhodd (sy'n dreth effeithlon iawn) neu ei ail-fuddsoddi mewn gweithgareddau masnachol eraill.

Mae'r trefniant hwn yn cynyddu eich baich gweinyddol ac yn eich gwneud yn ddarostyngedig i weithdrefnau ariannol ychwanegol er mwyn gwahanu gwariant rhwng y rhiant gwmni a'r is-gwmni.

Cwmnïau Preifat Cyfyngedig drwy warant

Nid oes gan gwmni cyfyngedig drwy warant unrhyw gyfranddaliadau, felly nid oes ganddo unrhyw gyfranddalwyr. Mae gan y cwmni aelodau, sy'n rhwym i warant yn erthyglau cymdeithasu'r cwmni a ddywed, os caiff y cwmni ei ddiddymu, y bydd yn ofynnol iddynt dalu dyledion y cwmni hyd at swm sefydlog, sef £1 fel arfer.

Y prif reswm dros sefydlu prosiect cymunedol yn gwmni cyfyngedig drwy warant yw diogelu'r bobl sy'n rhedeg y cwmni rhag rhwymedigaeth bersonol i ddyledion y cwmni, fel y gall busnes gael ei sefydlu'n gwmni cyfyngedig drwy gyfranddaliadau am yr un rheswm. Weithiau bydd cyrff ariannu, fel awdurdodau lleol, yn mynnu bod sefydliad yn cofrestru'n gwmni cyfyngedig drwy warant.

Statws Elusennol

Nid yw elusen yn strwythur cyfreithiol ar wahân; mae'n statws y gellir ei gael ar sawl ffurf gyfreithiol, fel cymdeithasau anghorfforedig, cwmnïau preifat cyfyngedig drwy warant a chymdeithasau diwydiannol a darbodus. Gall fod gan elusen anghorfforedig bŵer penodol i fenthyca yn ei dogfennau cyfansoddiadol. Fodd bynnag, os yw hyn ar goll, gellir defnyddio Deddf Elusennau 2011 i gynnwys pŵer i fenthyca (ar yr amod nad yw'r cyfryw ddiwygiad wedi'i wahardd yn benodol o dan y ddogfennaeth gyfansoddiadol).

Yn gyffredinol, mae banciau'n mynnu gweld pŵer penodol i fenthyca yn nogfen lywodraethu elusen, felly mae hwn yn gwestiwn y mae'n rhaid i ymddiriedolwyr ofyn iddynt eu hunain yn gynnar yn y broses fenthyca.

Os ydych yn trafod buddiannau cymunedol prosiect masnachol, mae gwybodaeth ar gael gan Community Pathways a rhoddir ei fanylion yn yr adran Rhagor o Wybodaeth.

Tariff Cyflenwi Trydan Ofgem

Mae Ofgem yn diffinio sefydliadau cymunedol fel un o bum categori, sef:

- Cwmni Buddiant Cymunedol, neu
- Gymdeithas Gydweithredol, neu
- Gymdeithas Budd Cymunedol, neu
- Elusen Gofrestredig, neu
- Is-gwmni sydd ym mherchenogaeth lawn Sefydliadau o'r fath.

Gall y sefydliadau cymunedol hyn gael budd o'r Tariff Cyflenwi Trydan o hyd, ond caiff eraill eu hepgor. Gall hyn gael effaith sylweddol ar hyfywedd ariannol eich prosiect. Mae rhagor o wybodaeth am Dariffau Cyflenwi Trydan ar gael yn y **modiwl Tariff Cyflenwi Trydan**; rhoddir manylion yn yr adran Rhagor o Wybodaeth.

Ymgysylltu â grwpiau cymunedol yn lleol

Mae'n bwysig nodi y bydd y grŵp cymunedol, i bob diben, yn dod yn ddatblygwr ynni a rhaid iddo gymryd cyfrifoldeb am ymgysylltu â'r gymuned, nid lleiaf fel rhan o'r broses gynllunio.

Mae'r grŵp cymunedol hefyd yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o ymgynghori â phobl leol ar ei gynlluniau a'i amcanion ei hun. Bydd arianwyr yn chwilio am dystiolaeth o ymgysylltu â'r gymuned a'i chefnogi oherwydd gall hyn leihaus rhai o'r risgiau sy'n gysylltiedig ag oedi yn y broses ddatblygu tra ymdrinnir â gwrthwynebiadau. Dylid cadw cofnod manwl o'r wybodaeth hon oherwydd bydd ei angen mewn trafodaethau â benthycwyr.

Mae'n bwysig cydnabod efallai na chaiff prosiect gefnogaeth leol gyffredinol hyd yn oed os yw'n brosiect cymunedol. O ddechrau'r prosiect, rhaid sefydlu proses gyfathrebu glir â'r gymuned gyfan lle lleolir y prosiect yn ogystal â chymunedau cyfagos a rhanddeiliaid eraill.

Dengys profiad fod yn rhaid i'r fath gyfathrebu fod yn agored ac yn onest o ran yr hyn sydd yn yr arfaeth, a rhaid iddo gynnwys cyfleoedd da i gael adborth ac ymateb iddo.

Gallwch weld trosolwg o'r ymgynghoriad ar brosiect ynni adnewyddadwy cymunedol mewn fideo gan y Ganolfan Ynni Adnewyddadwy ac mae gan PlanLoCal ganllawiau ar gynnwys pobl a phecyn adnoddau sy'n cynnwys canllawiau ar drefnu digwyddiadau, hysbysebu a chyfleu canlyniadau. Rhoddir manylion y fideo a'r pecyn adnoddau yn yr adran Rhagor o Wybodaeth.

Er bod yr holl ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael wedi'u dylunio i helpu grŵp cymunedol i nodi'r fframwaith cyfreithiol mwyaf priodol i weithredu ynddo, efallai y bydd hefyd yn werth i'r grŵp geisio cyngor proffesiynol yn y maes hwn.

Ystyriaethau ariannol grŵp cymunedol

Un o'r prif dasgau i'w cyflawni gan y grŵp cymunedol yw datblygu ei gynllun busnes i'r pwynt lle mae'n addas cwblhau'r agweddau ariannol. Bydd angen gwario arian er mwyn cyrraedd y man hwn.

Gall benthyciad cyfalaf neu grant cyfalaf ddarparu'r cyllid i gyflawni hyn (gweler y **Modiwl Cyllid**). Dylid nodi y gall y benthyciad a'r arian i gyfalafu'r prosiect fod yn sylweddol.

Mae'n bwysig bod unrhyw risgiau sydd ynghlwm wrth y cyfrifoldeb ariannol hwn yn cael eu lliniaru'n briodol er mwyn lleihau rhwymedigaethau personol, sydd, yn ei dro, yn dod nôl i'r ffordd y cyfansoddwyd y grŵp cymunedol.

Rôl y grŵp cymunedol yn ystod y cyfnod gweithredu

Hyd yn oed gyda phrosiectau lle nad oes angen fawr ddim ymyrryd, mae'n bwysig bod y grŵp cymunedol yn parhau i fonitro'r prosiect a'i berfformiad er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i weithredu cystal ag y gall. Hefyd, rhaid rheoli pob rhwymedigaeth, gofyniad o ran yswiriant ac archwiliad arferol. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'r grŵp cymunedol fodoli am oes weithredol y prosiect o leiaf.

Dosbarthu incwm cynhyrchu

Rôl bwysig arall i'r grŵp cymunedol yw dosbarthu incwm ariannol ei brosiect. Mae'n bwysig bod y ffordd y caiff arian ei wario neu ei ddosbarthu yn glir o'r dechrau ac y defnyddir dull agored a thryloyw o dalu a archwilir yn rheolaidd. Efallai y bydd y math o endid cyfreithiol a ddewisir gan y grŵp yn pennu'r ffordd y caiff incwm ei ddosbarthu. Rhoddir rhagor o wybodaeth yn yr adran Rhagor o Wybodaeth.

Mae'r system gynllunio bellach yn rhoi mwy o rôl i'r gymuned ac mae'n cynnwys creu cynlluniau datblygu cymunedol (gweler y **Modiwl Cynllunio**). Gall hyn effeithio ar y ffordd y dosberthir incwm, yn enwedig os mai datblygwyr sy'n arwain y prosiect. Yn yr achos hwn, gall cynllun datblygu cymunedol fod yn rhagofyniad i nodi'r buddiannau a gyflawnir gan ddefnyddio'r incwm a gynhyrchir.

Dadgomisiynu

Bydd y grŵp cymunedol yn gyfrifol am y prosiect gydol ei oes. Bydd hefyd yn gyfrifol am ddadgomisiynu ac, o bosibl, adfer y safle. Er y gall gwaredu cyfarpar esgor ar rywfaint o werth sgrap, y grŵp fydd yn gyfrifol am neilltuo swm priodol i dalu am ddadgomisiynu'r prosiect.

Dylai cyllideb y prosiect ddarparu ar gyfer digon o gronfeydd i gwblhau'r broses ddadgomisiynu.

Diddymu'r grŵp cymunedol

Unwaith y bydd y prosiect wedi dod i ben a'i fod wedi cael ei ddadgomisiynu, mae'n debygol y bydd angen i'r grŵp cymunedol ddod i ben hefyd. Bydd hyn yn bendant yn wir os mai prif amcan sefydlu'r grŵp oedd datblygu a gweithredu'r prosiect.

Felly, pan gaiff ei sefydlu, mae'n hanfodol bod y grŵp wedi llunio cytundebau cyfrwngol ynghylch y ffordd y caiff yr asedau ac unrhyw arian dros ben eu dosbarthu a/neu eu gwaredu.

Hefyd, rhaid i unrhyw gytundebau, contractau a rhwymedigaethau eraill gael eu terfynu'n briodol ynghyd â rheoli rhwymedigaethau. Bydd y rhwymedigaethau hyn wedi cael eu nodi yn ystod y cyfnod datblygu neu weithredu gan olygu y gellir cyflwyno camau lliniaru y gall fod angen iddynt fynd y tu hwnt i oes y grŵp.

Cadw cofnodion

Dylai'r holl wybodaeth am sefydlu eich grŵp cymunedol gael ei chynnwys a'i diweddarau mewn un gronfa ganolog ddiogel (naill ai'n lleol neu ar-lein). Dylid rhoi crynodeb o nodau ac amcanion y grŵp. Dylai cofnod o'r holl ymgynghoriadau cymunedol gael ei gadw yn yr adnodd, ynghyd â chofnod o'r holl wasanaethau proffesiynol a gafwyd. Mae sicrhau bod y cyfrwng dibenion arbennig wedi'i sefydlu'n briodol yn ofyniad cyn i fenthycwyr ariannu prosiect. Bydd y cofnodion hyn yn dangos y cynnydd rydych wedi'i wneud ac yn tanlinellu eich ymwybyddiaeth o'r camau y mae angen i chi eu cymryd, a fydd yn ddigon i gychwyn trafodaethau â benthycwyr.

Rhagor o wybodaeth

Trosolwg o Ddatblygiad y Prosiect

Rhydd adroddiad Prifysgol Caeredin dystiolaeth o'r ffactorau cymdeithasol sy'n dylanwadu ar lwyddiant prosiectau ynni cymunedol ar gamau datblygu gwahanol (o'r cysyniad i weithredu'r prosiect) http://www.climatexchange.org.uk/files/4413/8315/2952/CXC_Report_-_Success_Factors_for_Community_Energy.pdf

Sefydlu grŵp cymunedol

Mae nifer o ffynonellau gwybodaeth da ar gael ar gyfer sefydlu grŵp cymunedol:

- Mae gan Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliadau Cymunedol ganllawiau ar ffurfio sefydliad cymunedol. Mae ei gyngor hefyd yn cwmpasu agweddau eraill ar grwpiau cymunedol gan gynnwys statws cyfreithiol a chyllid
<http://www.communitymatters.org.uk/content/463/1-Setting-up-a-community-organisation>
- Mae gan KnowHow Now Profit wybodaeth am strwythur gweithredol yn y sector nid er elw yn ogystal â chymorth pellach ar reoli gweithrediadau beunyddiol
<http://knowhownonprofit.org/organisation/orgdev>
- Mae gan y Ganolfan Ynni Adnewyddadwy drosolwg fideo o reoli prosiect cymunedol
<https://www.youtube.com/watch?v=HmlaXvhnUyk>
- <http://walescooperative.co.uk/>
- <http://www.renewwales.org.uk/>
- <http://www.communityenergywales.org.uk>
- <http://www.wcva.org.uk/advice-guidance>

Ffurfioli'r grŵp

Os am gael cyngor ar broffesiynau, ceir rhagor o wybodaeth yn y **Modiwl Caffael**.

Y sgiliau gofynnol

Fframwaith cyfreithiol grŵp cymunedol

Ceir rhagor o wybodaeth am drefnu benthyciadau yn y **Modiwl Cyllid Prosiect**.

Os ydych yn ystyried datblygu prosiect perchenogaeth gymunedol, mae cymorth ar gael gan Swyddogion Datblygu Ynni Lleol

<http://www.energysavingtrust.org.uk/organisations/content/ynnir-fro-community-programme>

Mae canllawiau ar endidau cyfreithiol gwahanol ar gael gan amrywiaeth o ffynonellau

- Ceir Cyflwyniad i gorffori fel rhan o'r Gronfa Ynni Gymunedol Drefol
https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/373268/intro_to_incorporation.pdf
- Mae gan PlanLoCaL ddogfen sy'n helpu cymunedau i nodi'r strwythur cyfreithiol sefydliadol mwyaf addas <http://www.planlocal.org.uk/planlocal-community-renewables/group/exercises/page:5>
- Mae gan Co-operatives UK ganllawiau ar fabwysiadu strwythur ffurfiol
<http://www.uk.coop/starting-co-operative-journey/getting-organised>
- Mae gan y Ganolfan Ynni Adnewyddadwy fideo sy'n trafod sut mae gwahanol strwythurau cyfreithiol yn gweithio i grwpiau cymunedol
<https://www.youtube.com/watch?v=86J1TUpG6CQ>

- Mae gan y Ganolfan Ynni Adnewyddadwy fideo sy'n dangos pwysigrwydd cael strwythur a gydnabyddir yn gyfreithiol <https://www.youtube.com/watch?v=LByzIP4I7W4>
- Porth systemau Shared Community Ownership of Renewable Energy <http://scores.uk/index.html>
- Ewch i www.lep.org.uk/uploads/lep_making_escos_work.pdf and www.communitypathways.org.uk/approach/450/full am ragor o wybodaeth am gwmnïau gwasanaethau ynni cymunedol
- Ewch i www.uk.coop/ am ragor o wybodaeth am gwmnïau cydweithredol.

Strwythurau cyfreithiol gwahanol ar gyfer eich grŵp

Gellir lawrlwytho cymhariaeth ddefnyddiol rhwng y strwythurau gwahanol yma <http://envirofile.wpengine.com/resource/legal-structures-for-social-enterprise-comparison-table/>

Mae'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd wedi datblygu nodyn trosolwg byr ar fodelau cymdeithasau sydd ar gael i'r sector ynni cymunedol

<https://www.gov.uk/government/publications/community-energy-strategy-update/decc-overview-on-co-operative-societies-and-community-benefit-societies>

Cymdeithas Ddiwydiannol a Darbodus

Gellir cael rhagor o wybodaeth am gymdeithasau diwydiannol a darbodus yn <http://www.hmrc.gov.uk/manuals/ctmanual/ctm40505.htm>

Gall cwmnïau cydweithredol gael rhyddhad treth drwy

- Gynllun Buddsoddi Cychwynnol mewn Mentrau <http://www.hmrc.gov.uk/seedeis/background.htm>
- Cynllun Buddsoddi mewn Mentrau <http://www.hmrc.gov.uk/eis/>

Cwmni Buddiant Cymunedol

Gellir cael rhagor o wybodaeth am gwmnïau buddiant cymunedol yn

<https://www.gov.uk/government/publications/community-interest-companies-how-to-form-a-cic>

Cwmni Preifat Cyfyngedig drwy gyfranddaliadau

Gellir cael rhagor o wybodaeth am gwmnïau preifat drwy gyfranddaliadau yn <http://www.companieshouse.gov.uk/>

Cwmnïau Preifat Cyfyngedig drwy warant

Gellir cael rhagor o wybodaeth am gwmnïau preifat cyfyngedig drwy warant yn

http://www.companylawclub.co.uk/topics/companies_limited_by_guarantee.shtml

Statws Elusennol

Gellir cael rhagor o wybodaeth am Ddeddf Elusennau 2011 yn

<http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2011/25/contents/enacted>

Os ydych yn trafod buddiannau cymunedol prosiect masnachol, mae gwybodaeth ar gael gan Community Pathways <http://www.communitypathways.org.uk/approach/models-community-benefits-or-shared-ownership-commercial-renewable-energy-projects>

Tariff Cyflenwi Trydan Ofgem

Mae gwybodaeth am Dariiffau Cyflenwi Trydan ar gael ar wefan Ofgem

<https://www.ofgem.gov.uk/environmental-programmes/feed-tariff-fit-scheme>

Ymgysylltu â grwpiau cymunedol yn lleol

- Mae gan y Ganolfan Ynni Adnewyddadwy fideo sy'n rhoi trosolwg o'r ymgynghoriad ar brosiect ynni adnewyddadwy cymunedol https://www.youtube.com/watch?v=xHKys2_zjLo&list=PL73977304274232B7
- Mae gan PlanLoCal ganllawiau ar gynnwys pobl <http://www.planlocal.org.uk/pages/getting-people-involved> a phecyn adnoddau sy'n cynnwys canllawiau ar drefnu digwyddiadau, hysbysebu a chyfleu canlyniadau <http://www.planlocal.org.uk/planlocal-community-renewables>
- Mae Planning Aid wedi datblygu canllaw defnyddiol ar gefnogi gwaith datblygu a chyfathrebu cymunedol - gweler <http://www.rtpi.org.uk/media/6312/Good-Practice-Guide-to-Public-Engagement-in-Development-Scheme-High-Res.pdf>
- Mae'r Asiantaeth Cartrefi a Chymunedau hefyd wedi datblygu Pecyn Cymorth Ymgysylltu â'r Gymuned – gweler http://cfg.homesandcommunities.co.uk/community-engagement-toolkit?page_id=&page=1

Ystyriaethau ariannol grŵp cymunedol

Un o'r prif dasgau i'w cyflawni gan y grŵp cymunedol yw datblygu ei gynllun busnes i'r pwynt lle mae'n addas cwblhau'r agweddau ariannol. Bydd angen gwario arian er mwyn cyrraedd y man hwn.

Rôl y grŵp cymunedol yn ystod y cyfnod gweithredu

Dosbarthu incwm cynhyrchu

Mae HIE wedi cyhoeddi canllaw er mwyn helpu grwpiau cymunedol i nodi'r ffordd orau o ddsbarthu arian gan brosiectau ynni cymunedol (gweler www.hie.co.uk/about-hie/news-and-media/archive/new-guide-published-to-help-communities-manage-funds.html).

Mae gan y Low Carbon Hub lyfrgell adnoddau sy'n cwmpasu Sefydlu menter gymunedol a chynllun cyfranddaliadau <http://www.lowcarbonhub.org/resource/how-to-set-up-a-community-benefit-society/>

Mae gan Sefydliad Joseph Rowntree bapur briffio sef Finance and business models for supporting community asset ownership and control

<http://www.jrf.org.uk/sites/files/jrf/community-assets-business-models.pdf>

Comisiynwyd gan yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni yng Nghymru

Lluniwyd gan Ricardo-AEA Ltd gan adeiladu ar waith a gwblhawyd ar gyfer Cynllun Ynni Adnewyddadwy a Chymunedol Llywodraeth yr Alban

© Argraffydd y Frenhines ar gyfer yr Alban 2009, 2010, 2011, 2012

Diweddarwyd y ddogfen hon ddiwethaf ym mis Mawrth 2015